# Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 30 Hydref, 2007 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Alun Wyn Evans, Anne Lloyd Jones, Morgan L. Vaughan, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Brian Bates, W. Bracewell, D. Richardson, (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr Alf Bowen (Parnteriaeth Aberdyfi), Mr Dylan Evans (Clwb Rhwyfo Aberdyfi), Mr Nigel Willis (Clwb Cychod Aberdyfi)

Sylwedyddion: Dr J. Jones Morris (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Huw Davies | - | Peiriannydd Grŵp |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs. Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Robert J. Hughes, Trefor Roberts, Michael Sol Owen, W. Roy Owen (Cyngor Gwynedd), Mr Paul Edwards (Harbwr Feistr Aberdyfi), Mr Nick Dawson (Outward Bound).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd W Bracewell yn Gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol am y flwyddyn 2007/08.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd David Richardson yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol am y flwyddyn 2007/08.**

3. **CYDYMDEIMLAD**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth dau gyn Gynghorydd o'r ardal, sef Mr Richard Vaughan Jones, Caethle, Tywyn a Mr Llew Huxley, Tywyn. Bu'r ddau yn gwasanaethu ac yn gefnogol iawn i'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn am flynyddoedd tra buont yn aelodau ar y cyn Gyngor Dosbarth Meirionnydd ac yng nghyswllt Mr Huxley tra bu hefyd yn aelod o Gyngor Gwynedd hyd nes iddo ymddeol oherwydd dirywiad iechyd. Gofynnodd i bawb oedd yn bresennol sefyll am funud o ddistawrwydd fel arwydd o gydymdeimlad gyda theulu'r diweddar Mr Richard Vaughan Jones a Mr Llew Huxley yn eu colled.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 6 Mawrth 2007

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

5. **<u>ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL</u>**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr Barry Davies ar weithgareddau harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:-

(i) Morwriaeth
(ii) Materion cyffredinol yr Harbwr
(iii) Digwyddiadau
(iv) Ystadegau Harbwr
(v) Canlyniad Barn Cwsmer
(vi) Cyllidebau
(vii) Strwythur Staffio Morwrol.
(viii) Rheolaeth ar yr Aber

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

(i) yng nghyswllt **gymhorthion mordwyo** mai siom oedd nodi yn dilyn archwiliad gan swyddogion o Dŷ'r Drindod nad oedd y goleuadau yn cydymffurfio â siart mordwyo'r Harbwr a sicrhawyd y byddir yn cywiro hyn

Achoswyd cryn ddifrod i gymhorthydd mordwyo Rhif 2 ac fe fu'n rhaid buddsoddi mewn cyfarpar newydd. Bwriedir darparu rhaglen gynhwysfawr cynnal a chadw'r holl gymhorthion dros fisoedd y gaeaf.

(ii) mewn perthynas â **materion cyffredinol yr harbwr** bwriedir ysgrifennu at berchnogion yr arwyddion sydd wedi eu gosod heb ganiatâd ffurfiol ar y ffens wrth ochr yr Harbwr i'w tynnu oddi yno.

Bod Swyddog Iechyd a diogelwch y Cyngor wedi archwilio'r rhwystr sydd wedi ei osod ar y fynedfa ger y briffordd ac wedi nodi ei fod yn addas ar gyfer y pwrpas.

Y bydd cychod morwyr yn cael eu storio dros y gaeaf ar dir yr Harbwr ac fe nodwyd y byddai staff yr Harbwr yn ystod y tymor nesaf yn cludo unrhyw offer pysgota sydd wedi ei storio ar y lanfa er mwyn cydymffurfio â rheolau'r Harbwr.

Y bu i'r Uned Forwrol bwrcasu a gosod raciau storio cychod gweini ger y llithrfa ac fe nodwyd bod y rhain wedi gwella'r cyfleusterau storio.

(iii) Yng nghyswllt **digwyddiadau** llongyfarchodd y Swyddog Morwrol pawb a fu'n ymwneud â'r holl weithgareddau hynod lwyddiannus eto eleni.

Siom o'r tebygolrwydd na fyddai traeth Aberdyfi yn llwyddo i ennill y Faner Las Ewropeaidd na'r Faner Felyn Drefol yn 2008 oherwydd i ansawdd y dŵr ymdrochi fethu â chyrraedd y safon angenrheidiol.

(iv) yng nghyswllt **ystadegau** 'roedd 1049 o fadau dŵr personol wedi cofrestru gyda'r Cyngor yn 2007 a oedd ychydig yn llai mewn cymhariaeth â llynedd. Tynnwyd sylw at yr ystadegau a oedd yn cymharu'r harbyrau eraill

(v) **Yng nghyswllt y** canlyniad barn cwsmer **bod y canlyniadau yn gyffredinol dda ac y**

gobeithir gweithredu ar yr elfennau pwysicaf ddaeth i'r amlwg ynddi. Fodd bynnag, siomedig ydoedd yr ymateb o 40% a ddychwelodd yr holiadur

(v) Yng nghyswllt y **gyllideb** bod targed incwm harbwr Aberdyfi hyd yma wedi cyrraedd £34,367 sef £4,013 yn fyr o'r targed.

(vi) yng nghyd-destun **strwythur staffio morwrol** eglurodd y Swyddog Morwrol ar y sefyllfa gyfredol gan nodi bod swydd Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi yn dod i ben ar 31 Hydref 2007 gyda'r bwriad o adolygu'r sefyllfa dros fisoedd y gaeaf. Fodd bynnag, er sicrhau cymorth yn yr Harbwr dros fisoedd y gaeaf, fe fyddai Harbwr Feistr Abermaw yn cynorthwyo'r Harbwr Feistr yn Aberdyfi am ddau ddiwrnod yr wythnos rhwng 1 Tachwedd hyd at ddiwedd Mawrth 2008.

(b) cais gan Aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol i roddi bwi ar yr ochr Ogleddol i ddangos bod y sianel yn culhau.

(c) Ar ran y bad achub 'roedd y bwiau a'r goleuadau yn hynod dderbyniol.

(ch) yng nghyd-destun y rhwystr sydd wedi ei osod ar y fynedfa ger y briffordd, amlygwyd pryder gan aelod yn groes i farn Swyddog Diogelwch y Cyngor ei fod yn rhy drwm ac y dylid cael gwrthbwysau ar y rhwystr rhag i ddefnyddwyr gael anaf wrth ei ddefnyddio.

**Penderfynwyd:- Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

## 6. <u>MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU O'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL</u>

Ystyriwyd y materion canlynol na chyfeiriwyd atynt yn adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ac yn ystod trafodaethau blaenorol yn y cyfarfod hwn gydag ymateb y swyddog iddynt:-

(a) pryder ynglŷn â'r ddamwain a achoswyd gan gwch bŵer yn ardal yr Harbwr pryd y bu i fachgen 16 oed gael anaf a'i gludo i Ysbyty Gwynedd ym Mangor. Ymhelaethodd cynrychiolydd y Clwb Cychod bod y Clwb wedi ymateb yn syth i'r digwyddiad gan ofyn i'r Swyddog Morwrol am adroddiad i'w gylchredeg i aelodau'r Clwb a hefyd gofynnwyd am adborth o'r hyn ddigwydd gan dystion ond hyd yma ni dderbyniwyd unrhyw ymateb. Yn ychwanegol, mae'r Clwb Cychod yn cynnal cyrsiau i'w holl aelodau ar yrru cychod er mwyn hyrwyddo arfer da ar y dŵr.

Ategodd aelod y byddai'n gyfle gwych i staff yr Harbwr fod yn rhagweithiol ac y dylid anfon llythyr at bob perchennog cwch bwêr i'w hannog i gymryd cwrs ymwybyddiaeth er mwyn dysgu am natur a pheryglon y foryd yn Aberdyfi. Awgrymwyd y dylai Is-gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn, cynrychiolydd y Clwb Cychod a staff yr Harbwr gwrdd i drafod y mater o gynnal cyrsiau i ddefnyddwyr y dŵr

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol y byddai'n cynnal ymchwiliad cychwynnol i'r digwyddiad. Anogwyd yr aelodau i gysylltu'n uniongyrchol gyda staff yr Harbwr neu Gadeirydd /Is-gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn pe cyfyd unrhyw broblemau yn dymunent eu trafod yn hytrach na disgwyl tan ddiwedd y tymor.

(b) Bod yr ardal storio mewn cyflwr blêr ac y dylid ei dacluso'n ddi-oed ac y dylid ceisio annog y pysgotwyr i'w gadw'n daclus i'r dyfodol.

(c) derbyniwyd adroddiad llafar gan gynrychiolydd Partneriaeth Aberdyfi ar y cynnydd hyd yma yn deillio o'r prosiect i ddatblygu'r Harbwr. Disgwylir adroddiad gan DEFRA er mwyn i'r Bartneriaeth allu bwrw ymlaen gydag adroddiad pellach yn ymwneud â charthu, a .y.b. ac yna fe ellir bwrw ymlaen i gynnal arddangosfa o'r bwriadau. Yn ogystal, fe ddarperir taflen newyddion i hysbysebu trigolion Aberdyfi o'r cynnydd yn ogystal fe geir adroddiad misol gan y Bartneriaeth yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â sefyllfa darparu llithrfa o ganlyniad i arian a dderbyniwyd tuag at y gost gan y Pwyllgor Gwelliannau, esboniodd y Swyddog Morwrol y disgwylir am yr astudiaeth gan Bartneriaeth Aberdyfi yn y lle cyntaf i sicrhau nad oes dyblygu neu unrhyw wrthdaro yn nhermau datblygiadau.

(ch) amlygwyd pryder bod tagfa yn digwydd wrth i gychod angori o flaen y lanfa oherwydd lleoliadau'r angorfeydd ac y byddai'n fuddiol i'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn drafod y mater gyda'r contractwr gosod angorfeydd fel bo modd lliniaru'r broblem.

(d) mewn ymateb i ymholiad gan aelod ynglŷn â chyflwr y pileri dur ar y cei, eglurodd y Peiriannydd Grŵp bod yr adran yn disgwyl adroddiad gan arbenigwr ac fe fyddai'n rhaid disgwyl caniatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i fedru ymgymryd ag unrhyw waith arbenigol i'r pileri.

**Penderfynwyd (a) Derbyn a nodi'r sylwadau wnaed ynghyd ag ymateb y Swyddog Morwrol a Pharciau Gweledig iddynt.**

## 6. <u>UNRHYW FATER ARALL</u>

### (a) Aelodaeth

**Adroddwyd:** Bod dwy Gymdeithas ar y rhestr aelodaeth bellach wedi diddymu sef Cymdeithas Defnyddwyr a Moryd Aberdyfi a Chymdeithas Defnyddwyr Cychod Masnachol ac mai priodol fyddai eu diddymu o'r rhestr dosbarthu. Awgrymwyd, fodd bynnag, y byddai'n fuddiol gofyn i Mr Fothergill o Gymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion os byddai ganddo ddiddordeb i ymaelodi â'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a gofyn i'r Swyddog Morwrol gysylltu â Mr Fothergill ynglŷn â bod yn aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn.**

**(b) Llithrfa**

Gwnaed cais gan gynrychiolydd y Clwb Cychod i'r posibilrwydd o roi llithrfa yn ardal Bae'r Eglwys (??) oherwydd nad oes cyfleusterau yn yr ardal hon mae'n profi'n anodd i berchnogion cychod neu os nad oedd hyn yn bosibl a ellid rhoi peipen ddŵr rwber i berchnogion fedru golchi eu cychod.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol bod bwriad i roi llithrfa ond nad oedd yn flaenoriaeth ar hyn o bryd oherwydd diffyg adnoddau ariannol. Hefyd, yn nhermau gosod peipen ddŵr, bod cyflenwad dŵr ffres yn uchel i'w redeg ac ni ragwelir y gellid cyfiawnhau darpariaeth o'r fath ar hyn o bryd. 'Roedd peiriant talu ar gyfer cyflenwad dŵr ffres wedi ei osod yn Harbwr Abermaw ond yn anffodus 'roedd y cyfarpar yn destun fandaliaeth.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(c) Gosod Bwiau ar gyfer Badau Dŵr Personol**

Gwnaed cais i neilltuo ardal benodol ar gyfer defnydd badau dŵr personol i'r dwyrain o Penhelyg.

Mewn ymateb, awgrymodd y Swyddog Morwrol bod cynrychiolwyr o'r Clwb Cychod yn trafod gyda'r Harbwr Feistr fel bo modd nodi manteision ac anfanteision gwneud hyn ac yna gellid trafod ymhellach.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

7. **<u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**

Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 4 Mawrth 2008.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod.**

Cadeirydd